

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)

Newyddion Diweddaraf:

Hydref 2017

Croeso

Mae'n amser cyffrous i fod yn gysylltiedig ag Asesu Effaith ar Iechyd (HIA) yng Nghymru. Ar adeg cyhoeddi hwn, cafodd [Deddf Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\) \(2017\)](#) Gydsyniad Brenhinol a bydd hyn yn cryfhau rôl HIA yng Nghymru trwy ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru greu rheoliadau am yr amgylchiadau lle mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal HIA. Mae WHIASU yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru (LIC) i ddatblygu'r rheoliadau a natur y cymorth i'w ddarparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) i Gyrff Cyhoeddus (PB) i'w cefnogi i Asesu'r Effaith ar Iechyd. Rydym yn brysur yn datblygu strategaeth hyfforddi a meithrin gallu newydd ar gyfer HIA yng Nghymru - hoffem glywed oddi wrthyfch os oes gennych unrhyw adborth neu ddysgu i'w rannu.



Richard Owen, Athro Cyswllt, Prifysgol Abertawe, ym Mhapur Newydd yr Independent 5 Mehefin 2017. Darllenwch yr erthygl lawn [yma](#)

Gobeithio byddwch yn mwynhau darllen y cylchlythyr hwn fydd, gobeithio, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi ar bolisi, ymarfer a thystiolaeth yng Nghymru a thu hwnt. Cysylltwch os hoffech ganfod mwy - mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Cynnwys

1. [Cyhoeddi Offer Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Aseu Effaith ar Iechyd](#)
2. [Diweddariadau Polisi a Chanllawiau Cynllunio](#)
3. [Cydweithrediadau WHIASU: Cyfoeth Naturiol Cymru](#)
4. [Datganiad Ostrava Ewrop WHO 2017](#)
5. [Cyflwyniadau Cynhadledd WHIASU](#)
6. [Papur cyfnodolyn: HIA ar Fframwaith Drafft Economi'r Nos \(Cymru\)](#)
7. [Gwaith Gwella Ansawdd ar ymgynghoriadau cynllunio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
8. [Dyddiadau hyfforddiant](#)
9. [Cysylltu â ni](#)

Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Aseu Effaith ar Iechyd

Roedd yn bleser gan WHIASU gyhoeddi Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Aseu Effaith ar Iechyd (HIA) ym mis Gorffennaf eleni. Mae cyhoeddi'r Fframwaith yn gam pwysig yn nhaith HIA a'i ddatblygiad. Ei nod yw cryfhau ymarfer a defnydd o HIA yng Nghymru (a thu hwnt) er mwyn cynyddu'r buddion a lleihau'r perygl i iechyd a llesiant ystod eang o bolisiau, rhaglenni, gwasanaethau a datblygiadau traws sector.

Fframwaith Adolygu QA WHIASU¹ yw'r offeryn arfarnu eang cyntaf a ddatblygwyd ar gyfer HIA yn fyd-eang a bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i ymarfer HIA yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar lefel rhyngwladol, nid oes llawer o offer yn bodoli i adolygu ansawdd HIA. Mae'r rheiny sydd ar gael naill ai ddim yn benodol i HIA neu'n canolbwyntio ar fath penodol o brosiect yn unig.

Bydd angen i'r gwaith o weithredu rheoliadau HIA yn deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gael ei gefnogi trwy gynyddu nifer yr ymarferwyr o'r sector iechyd a sectorau eraill sydd yn fedrus yn cynnal ac yn sicrhau ansawdd HIA a bydd yr offeryn hwn yn gynorthwydd defnyddiol. Dilynwch y dolenni isod i lawrlwytho'r Fframwaith a'r dogfennau cysylltiedig.

- [Canllawiau](#) ar y ffordd i gynnal adolygiad sicrhau ansawdd HIA gan ddefnyddio'r fframwaith
- [Matrics](#) o feini prawf y mae angen eu harddangos mewn HIA credadwy a chadarn o ansawdd uchel.
- [Nodiadau esboniadol](#) i lywio'r defnydd o'r meini prawf i adolygu HIA



¹ Fframwaith Adolygu QA

Diweddariadau Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Mae Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynhyrchu'r [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol \(NDF\)](#). Bydd yr NDF yn sefydlu fframwaith defnydd o dir 20 mlynedd ar gyfer Cymru ac yn disodli Cynllun Gofodol presennol Cymru.

Mae datblygiad yr NDF yn cyd-fynd â'r nodau a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WFGA). Felly mae'r **effaith a'r cyfraniad i ganlyniadau iechyd a llesiant yn sgil yr NDF yn ystyriaeth allweddol**. Wrth ddatblygu'r fframwaith bydd nifer o gyfleoedd i ymgysylltu a llywio'r broses.

Bydd yr NDF yn:

- Sefydlu ble mae angen twf ac isadeiledd sydd yn bwysig yn genedlaethol a sut y gall y system gynllunio - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol - ei gyflenwi
- Rhoi cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi penderfynolrwydd Datblygiadau ag Arwyddocâd Cenedlaethol
- Eistedd ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, sydd yn sefydlu polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i roi cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd o dir
- Cefnogi strategaethau economaidd, trafniadaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni trwy'r system gynllunio
- Cael ei adolygu bob 5 mlynedd



Canolbwyntiodd ymgynghoriad diweddar (ddaeth i ben 21 Gorffennaf 2017) ar yr Adroddiad Cwmpasu Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (ISA). Bydd gan yr ISA safbwynt holistaidd o effeithiau posibl yr NDF ar draws holl nodau'r WFGA. Amlinellodd y ddogfen gwmpasu sut yr oedd yr holl asesiadau effaith priodol, yn cynnwys Asesu'r Effaith ar Iechyd, wedi cael eu hystyried a'u hintegreiddio yn un fframwaith arfarnu cynaliadwyedd. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle pwysig i gyfrannu at ddata a thystiolaeth llinell sylfaen iechyd a llesiant ychwanegol er mwyn llywio'r ISA terfynol.

Am fwy o wybodaeth am yr NDF a'i gynnydd, neu sut y gallwch gyfrannu at ddatblygiadau ac ymgynghoriadau parhaus i gynyddu'r cyfraniad at ganlyniadau iechyd a Llesiant, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Ffôn: 0300 025 3744 neu 0300 025 6657

Ebost: ndf@wales.gsi.gov.uk neu ffdc@cymru.gsi.gov.uk

Cyfarwyddeb newydd Asesu Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) yr Undeb Ewropeaidd 2017

Ar 16 Mai 2017, cafodd darn newydd o ddeddfwriaeth sector cynllunio Ewropeaidd ei drawsosod ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Asesu Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) yn broses lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ac yna cynhelir ymgynghoriad ar hyn, mewn ffordd systematig, i lywio asesiad o'r effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol yn deillio o ddatblygiad arfaethedig. Mae'r Gyfarwyddeb EIA newydd (Cyfeirnod 2014/52/EU) yn disodli'r gyfarwyddeb flaenorol a'i nod yw egluro a chryfhau'r broses yn ogystal ag ansawdd ei chynnwys.

Fel rhan o hyn, mae'r cyfeiriad at iechyd a llesiant wedi cael ei ddiwygio a'i gryfhau er mwyn sicrhau bod 'iechyd dynol a'r boblogaeth' bellach yn cael eu hystyried yn y Datganiad Amgylcheddol (cynnyrch EIA) yn hytrach na'r cyfeiriad blaenorol at 'iechyd dynol'. Nid yw hyn yn golygu y bydd asesiad o'r effaith ar iechyd unigol neu integredig yn cael ei gynnal ond **gall gryfhau'r ystyriaeth o iechyd a llesiant y boblogaeth ehangach yn y broses** (mae penderfyniadau iechyd amgylcheddol yn cael eu hystyried fel mater o drefn) yng Nghymru.

Mae hyn yn rhoi **ysgogiad** defnyddiol a chadarnach i sefydliadau a rhanddeiliaid ehangach iechyd y cyhoedd **ar gyfer ymgysylltu yn y broses cynllunio datblygiad**. Mae canllawiau EIA ar gyfer Cymru'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac mae partneriaid WHIASU a PHW wedi bod yn rhan o'r broses hon.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd [Public Health England \(PHE\)](#) ganllaw byr ar gyfer y cyfleoedd ar gyfer timau iechyd y cyhoedd lleol yn Lloegr yn deillio o'r newid hwn. Gallwch lawrlwytho'r canllaw yma.

Briff Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell (Cymru) 2016



Mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA) wedi atgyfnerthu ymagwedd iechyd ym Mhob Polisi (HiAP) tuag at wneud polisiâu yng Nghymru. Ynghyd â'r WFGA, cafwyd hefyd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar y cyd, mae'r deddfau hyn wedi codi proffil y cyfraniad y gall y sector cynllunio ei wneud i fynd i'r afael a blaenoriaethau iechyd allweddol fel teithio egniol, newid hinsawdd ac ansawdd aer a chyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r datblygiadau hyn mewn polisi wedi rhoi'r cyfle i atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithredu rhwng y systemau cynllunio ac iechyd y cyhoedd. Arweiniodd at gyhoeddi 'Planning for Better Health and Well-being in Wales: A Briefing'. Cafodd y Briff ei lansio ym mis Rhagfyr 2016 a chafodd ei gynhyrchu gan y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref mewn cydweithrediad â WHIASU ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ei nod yw:

- Cyflwyno cynllunwyr i'r system iechyd y cyhoedd a gweithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol i'r system gynllunio a nodi ble mae gofynion deddfwriaethol a pholisi allweddol yn gorgyffwrdd;

- Amlygu cyfleoedd yn ystod cyfnodau allweddol o fewn y ddwy system (fel paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol) lle gall gweithio'n fwy integredig rhwng cynllunwyr a gweithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol helpu i gyflenwi canlyniadau iechyd, llesiant a chynaliadwyedd;
- Amlygu cyfleoedd i hybu iechyd a llesiant; a
- Chyfeirio adnoddau defnyddiol, gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da.

Er y gellir darllen y briff fel dogfen gyfan, mae wedi ei ddylunio i alluogi ymarferwyr i ganolbwyntio ar elfennau penodol yn cynnwys adnoddau i gefnogi ymgysylltu a chydweithredu rhwng y systemau cynllunio ac iechyd y cyhoedd. Mae'r briff yn cynnwys cyfeiriad at Asesu'r Effaith ar Iechyd ac mae'n amlygu'r cyfleoedd i gymhwyso HIA er mwyn cynyddu canlyniadau iechyd a llesiant a chyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd.


Gweler Ffigur 1 isod sydd yn amlinellu siart llif yn amlygu cyfleoedd ar gyfer cynyddu cydweithredu ac effaith ar iechyd a llesiant trwy'r system gynllunio

Gellir cael mynediad i'r Briff: [Cymraeg](#)



Enghraifft o'r adnoddau sydd ar gael yn y briff Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell

Ffigur 1: Siart llif yn amlinellu cyfleoedd ar gyfer cynyddu cydweithrediad ac effaith ar iechyd a llesiant trwy'r system gynllunio.



Adroddiad Cael Cymru i Symud, Mawrth 2017

Mae'r Adroddiad Cael Cymru i Symud yn ddarn o waith ar y cyd rhwng PHW a Chwaraeon Cymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion i fynd i'r afael ag ymddygiad eisteddog ar y cyd ar draws Cymru. Er nad yw'n ddogfen gynllunio benodol, mae wedi ei amlygu yma am fod yr adroddiad yn cydnabod cyfraniad y sector cynllunio i un o flaenoriaethau lechyd y Cyhoedd - sef sicrhau bod pob person yng Nghymru yn meddwl am weithgaredd corfforol fel rhan arferol o'u bywyd bob dydd. Gall fod potensial i'r adroddiad lywio'r cynnig i greu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra fel y nodir yn Neddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae gan gynllunio gyfraniad amlwg i'w wneud yn creu Mannau a Chymunedau Egniol, Cyfleusterau a Mannau Agored a Theithio Egniol sydd yn dri o'r wyth maes ar gyfer gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad. Cyfeirir at HIA hefyd fel offeryn i gefnogi elfennau o'r meysydd gweithredu sy'n ymwneud â chynllunio.

Gwaith Partneriaeth WHIASU

Er mwyn galluogi WHIASU i gyflenwi ei amcanion allweddol yn effeithiol, sef cefnogi datblygiad a defnydd effeithiol o HIA yng Nghymru yng nghyd-destun ymagwedd lechyd ym Mhob Polisi, mae'n gofyn am berthynas waith gref gydag ystod o bartneriaid. Mae gwaith partneriaeth yn gynyddol bwysig ac yn agwedd annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ategir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd llwybr diweddar Deddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn creu HIA fel asesiad statudol o fewn amgylchiadau penodol (i'w ddiffinio trwy reoliadau). Mae PHW a WHIASU ar hyn o bryd yn cwmpasu'r hyn y bydd hyn yn ei olygu i'r Uned. Bydd angen gwella a datblygu gweithio mewn partneriaeth ymhellach er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf newydd.



Amlinellodd cylchlythyr WHIASU blaenorol waith partneriaeth WHIASU gyda Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd (CIEH) yng Nghymru. Prif ffocws y gwaith gyda CIEH yw cyflenwi hyfforddiant HIA ac mae hyn yn parhau i dyfu.

Partner agos arall yw Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW). I ddechrau, roedd y gwaith gyda NRW yn canolbwyntio ar eu cefnogi i ddatblygu 'Offeryn Sgrinio Asesu'r Effaith ar lechyd a Llesiant (WIA)'. Roedd hyn yn rhan o baratoi i gyflenwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) fel rhan o'i rôl fel corff cyhoeddus fel y diffinnir yn y Ddeddf. Mae'r offeryn WIA wedi cael ei lywio gan y ddamcaniaeth a'r ymagwedd a ddatblygwyd o fewn HIA.

Mae cydweithredu pellach wedi arwain at gyflenwi hyfforddiant HIA Cyflym i nifer o swyddogion NRW. Bydd nifer o'r meysydd gwaith sy'n cael eu gwneud gan NRW o bosibl yn cael eu cynnwys trwy gyflwyno HIA statudol fel yr amlinellir yn Neddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae'n debygol iawn y bydd swyddogion yn NRW yn gysylltiedig ag agweddau gwahanol o HIA fel: cyfrannu fel rhanddeiliad i HIA; gwneud HIA yn uniongyrchol; neu asesu ansawdd a chanfyddiadau HIA wedi ei gwblhau fel rhan o gynllunio neu ganiatáu datblygiad. Yr hyfforddiant oedd y cam cyntaf yn rhoi cipolwg ar ddamcaniaeth ac ymarfer HIA a meithrin gallu yn y sefydliad. Roedd yr adborth yn cynnwys:

“Perthnasedd i NRW ac felly cymaint o agweddau eraill ar ein gwaith. Effaith bosibl er mwyn sicrhau bod gwiriadau hanfodol yn cael eu sefydlu ar gyfer datblygiadau ac ati.”

“Maes gwaith pwysig ac yn un y mae angen i ni gymryd mwy o ran ynddo”

“Nid oedd gennyf unrhyw wybodaeth flaenorol am HIA, felly roedd hwn yn gyflwyniad da iawn i'r broses a'r sylfaen deddfwriaethol ar ei chyfer”

“Dal yn ansicr a wyf yn deall y cyfan 100%, ond yn ddechrau da”

Mae'r sylw olaf yn un pwysig. Mae WHIASU yn ystyried y sesiynau hyfforddiant fel y cam cyntaf i ddeall HIA trwy archwilio'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r prosesau cysylltiedig ac yna'n adeiladu ar brofiad a sgiliau pobl yn cynnal HIA yn ymarferol. Nid oes unrhyw beth yn mynd y tu hwnt i'r cysyniad o 'ddysgu wrth wneud' ac mae hyn yn rhywbeth y mae WHIASU yn ei gynnig trwy gyfleoedd i gymryd rhan yn arsylwi, cefnogi a chyfranogi mewn HIA a hefyd cymorth mentora i gynnal HIA ymarferol yn y dyfodol.

Datganiad Ostrava Ewrop WHO 2017

Cynhaliwyd y Chweched Gynhadledd Weinidogaethol ar 'Yr Amgylchedd ac Iechyd ar Gyfer Rhanbarth Ewropeaidd WHO' yn Ostrava, Gweriniaeth Tsiec ar 13-15 Mehefin 2017. Cyfrannodd WHIASU un o ddwy astudiaeth achos o arfer gorau yn unig ar gyfer Papur Briffio Gweinidogaethol Swyddfa Rhanbarth Ewropeaidd WHO o'r enw 'Environmental and Health Impact Assessments: Integrating health into Environmental Assessments - a tool to achieve the Sustainable Development Goals'. Canlyniad y gynhadledd oedd [Datganiad Ostrava](#)

Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i HIA yng ngweithred 14 e:

[‘Datganiad Ostrava’](#) (2017) Gweithred 14 e

‘cryfhau gwybodaeth a gallu gweithwyr iechyd ac amgylcheddol proffesiynol i asesu'r effaith ar iechyd trwy addysg a hyfforddiant pellach’.

Cyflwyniadau Cynhadledd WHIASU ac Erthyglau Cyfnodolion

Cyflwyniadau'r Gynhadledd

Rhoddodd Liz Green, Prif Swyddog Datblygu Asesu Effaith ar Iechyd (HIA), WHIASU gyflwyniad yng Nghynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Asesu Effaith (IAIA) ym Montreal. Gofynnwyd i Liz roi cyflwyniad ar waith yr Uned yn cefnogi ystyried iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau mewn sectorau cynllunio - gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu isadeiledd gwyrdd gan ddefnyddio ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. Cyflwynodd Liz hefyd gyflwyniad am gymhwyso HIA fel dull o ddatblygu 'Iechyd ym Mhob Polisi' (HIAP). Roedd hyn yn canolbwyntio ar astudiaeth achos am HIA o Fframwaith Drafft Economi'r Nos Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd trwy gydol 2016.

Gwahoddwyd Liz i gyfrannu at, a rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod arbenigol Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Iechyd yn Bonn ym mis Ebrill. Roedd y cyfarfod 2 ddiwrnod yn canolbwyntio ar integreiddio iechyd a llesiant i Aseidiadau Amgylcheddol ac yn benodol creu llwyfan gwybodaeth ar-lein i gefnogi hyn.

Yn olaf, rhoddodd Lee Parry-Williams, Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Aseu Effaith) a Liz Green gyflwyniad yng Nghynhadledd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y DU ym mis Mai. Rhoddodd Lee gyflwyniad o'r enw 'Sut mae Aseu Effaith ar Iechyd (HIA) yn galluogi gweithlu iechyd y cyhoedd i gydweithredu wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd' tra bod Liz wedi canolbwyntio ar y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r adnodd 'Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell' ar gyfer Cymru. Cafodd y cyflwyniadau i gyd dderbyniad cadarnhaol.

Papur Cyfnodolyn: HIA Fframwaith Drafft Economi'r Nos

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd WHIASU Adroddiad ar gyfer [Aseu Effaith Fframwaith Drafft Economi'r Nos \(NTE\) Llywodraeth Cymru ar Iechyd \(HIA\)](#). Dyma'r HIA cyntaf erioed ar y pwnc yn rhyngwladol neu'n genedlaethol. Cynhaliwyd yr HIA hwn mewn cydweithrediad â'r Arweinydd Plismona ac Iechyd yn PHW a chefnogodd LIC i ailedrych ar eu Fframwaith NTE a'i ailddrafftio.

Nid oes unrhyw ddiffiniad safonol o'r NTE ond yn gyffredinol mae economi'r nos yn ymwneud â'r gweithgaredd sydd yn digwydd rhwng 6pm a 6am. Helpodd yr HIA i symud y pwyslais oddi ar yr ymagwedd draddodiadol o reoli a phlisona'r NTE yn llym i un o hybu iechyd ac ataliaeth.

Roedd yn seiliedig ar ystod eang o gyfranogiad rhanddeiliaid ar draws Cymru a thystiolaeth empiraidd. Roedd yn amlygu'r effeithiau posibl ar Iechyd a Llesiant (rhai cadarnhaol a negyddol) y gallai'r NTE eu cael a hefyd yn nodi nifer o grwpiau agored i niwed a allai gael eu heffeithio trwy ymgysylltu â'r NTE. Roedd hefyd yn cefnogi'r gwaith o nodi enghreifftiau o arfer gorau ledled Cymru y gallai rhanddeiliaid eraill eu hefelychu.

Yn dilyn ymlaen o'r ymagwedd newydd hon mewn maes newydd, mae'r arweinwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a WHIASU wedi ysgrifennu ac wedi derbyn papur cyfnodolyn. Mae'r papur, o'r enw 'Datblygu Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru: ymagwedd Aseu Effaith ar Iechyd' yn nodi'r broses HIA a gymerwyd a'r ffordd y mae'n llywio ac yn ffurfio'r ail ddrafft a'r canlyniadau a'r gwerth ychwanegol sydd yn deillio ohono. Bydd ar gael yn y Journal of Impact Assessment and Project Appraisal (IAPA) yn 2017.



Gwaith gwella ansawdd ar ymgynghoriadau cynllunio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae WHIASU ar hyn o bryd yn gweithio'n gydweithredol gyda chydweithwyr yn Nhîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol PHW, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Caerdydd a'r Fro a Thîm Polisi PHW i archwilio sut y gall PHW a PHE symleiddio a gwella cydlyniant ac effaith ymatebion iechyd y cyhoedd i ystod eang o ymgynghoriadau polisi a cheisiadau cynllunio er mwyn cynyddu ein heffaith ar Iechyd a Llesiant trwy'r system gynllunio yng Nghymru. Ein gobaith yw y byddwn yn adrodd mwy ar y datblygiad hwn yn ein diweddariad nesaf.

Dyddiadau hyfforddiant

Bydd WHIASU yn cyflwyno nifer o sesiynau cyflwyniadol ar Asesu Effaith ar Iechyd ac Asesu Effaith ar Les Meddwl (MWIA) ym mis Medi ar y cyd â thîm Datblygu Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dilynwch y dolenni am fanylion llawn a thaflenni fydd yn cynnwys manylion cofrestru.

Cyflwyniad i Asesu Effaith ar Iechyd

21 Medi, 930 -13.00, Canolfan Optig, Llanelwy

25 Medi, 930-1300, CQ2, Caerdydd

Asesu Effaith ar Les Meddwl: Briff

25 Medi, 2- 4pm, CQ2, Caerdydd

Cysylltu â Ni

Liz.Green@wales.nhs.uk

Prif Swyddog Datblygiad Asesu Effaith ar Iechyd

Wedi ei lleoli yn Wrecsam Ffôn: 01978 313 664

Lee.ParryWilliams@wales.nhs.uk

Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)

Wedi ei leoli yn yr Wyddgrug Ffôn: 01352 803482

Nerys.S.Edmonds@wales.nhs.uk

Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith) (Cyfnod Mamolaeth)

Wedi ei lleoli yn Ne Cymru.